# CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2012**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd G. O. Jones - Cadeirydd<br>Y Cynghorydd R.Ll. Jones - Is-Gadeirydd (Cadair)<br><br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, E. G. Davies, Jim Evans, Lewis Davies, R. Anthony Dew, B. Durkin, Ff. M. Hughes, R. Ll. Hughes, T. Ll. Hughes, W. T. Hughes, Aled M. Jones, Eric Jones, H. Eifion Jones, O. Glyn Jones, Raymond Jones, R. Dylan Jones, T. H. Jones, Rhian Medi, C. McGregor, Bryan Owen, R. L. Owen, Bob Parry OBE, G. O. Parry MBE, J. Arwel Roberts, Eric Roberts, G. W. Roberts OBE, P. S. Rogers, E. Schofield, H. W. Thomas, Ieuan Williams J. P. Williams, S. Williams. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol),<br>Swyddog Adran 151 Dros Dro,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Uned Darparu Mewnol)<br>Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau<br>Swyddog Cyfathrebu. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Comisiynwyr Alex Aldridge, Byron Davies, Margaret Foster, M Giannasi a Gareth Jones. |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr C. Ll. Everett, K. Evans, K. P. Hughes, W. I. Hughes, J. V. Owen. |

---

**1 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

8 Rhagfyr 2011 (Arbennig)
8 Rhagfyr 2011
13 Rhagfyr 2011 (Arbennig)
13 Rhagfyr 2011 (Eitemau a ohiriwyd o 8 Rhagfyr)

Materion yn codi:-

Dywedodd y Cynghorydd Aled Morris Jones nad oedd unrhyw gyfeiriad wedi'i gynnwys yn y cofnodion ei fod ef ac aelodau eraill o'r Cyngor wedi mynegi pryderon nad oeddent wedi cael digon o amser i fyfyrio ar gynnwys yr adroddiadau. Hefyd, roedd y geiriau *'asiantiaid chwilio'* wedi'u defnyddio yn y cofnod o dan yr eitem oedd yn ymwneud â'r Uwch Grŵp Arweinyddiaeth. Dywedodd mai'r geiriau yr oedd ef wedi'u defnyddio oedd *'ymgynghorwyr cyflogaeth'* ac roedd yn dymuno i'r cofnod adlewyrchu hynny.

17 Ionawr 2012 (Arbennig)

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim i'w ddatgan.

**3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIAD GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y BWRDD COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TÂL**

Roedd y Cadeirydd am longyfarch Paul Mealor ar ei lwyddiant diweddar. Ef oedd yn gyfrifol am ysgrifennu'r gân '*Wherever you are'* ar gyfer Côr Gwragedd Aelodau'r Lluoedd Arfog oedd wedi bod yn hynod o lwyddiannus dros gyfnod y Nadolig. Cyn hynny, roedd ei gerddoriaeth 'Ubi caritas' wedi'i ddewis yn arbennig gan Ddug a Duges Caergrawnt yn eu priodas yn Abaty Westminster fis Ebrill y flwyddyn ddiwethaf. Roedd Paul Mealor yn byw ar Ynys Môn - hynny yw, pan nad yw'n darlithio ym Mhrifysgol Aberdeen.

Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i Bwyllgor Lleol y Sioe Frenhinol Gymreig ar eu hymgyrch i godi arian – Ynys Môn fydd yn noddi'r sioe yn 2013.

Estynnodd y Cadeirydd ei ddymuniadau gorau i Mr. T. Gwyn Jones (cyn Gyfarwyddwr Corfforaethol Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) ar ei ymddeoliad diweddar y mis diwethaf.

Atgoffodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol bod ei Noswaith Elusennol i'w chynnal yng Ngwesty Trearddur nos Wener, 30 Mawrth 2012.

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i gydymdeimlo gydag unrhyw Aelod neu aelod staff a oedd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn teyrnged ddistaw fel arwydd o'u parch.

************************

Ar ran y Cadeirydd, cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y ffaith nad oedd gweddi wedi'i chynnwys ar raglen y dydd heddiw. Y rheswm am hyn oedd i'r arfer yn Lloegr gael ei herio'n ddiweddar (yn achos Bideford). Roedd yr achos wedi bod trwy'r llysoedd ac fe wnaed dyfarniad ei fod yn anghyfreithlon cynnig gweddi ar ddechrau cyfarfodydd mewn cynghorau. Yn Lloegr, roedd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, Eric Pickles, wedi dechrau proses i gyflwyno deddf trwy'r Senedd i ddadwneud y penderfyniad hwnnw. Oherwydd y sefyllfa gyda phwerau dirprwyedig, nid oedd y broses honno'n berthnasol i Gymru. Felly roedd y dyfarniad yn dal mewn grym oni bai bod y Cynulliad yn penderfynu gweithredu a deddfwriaethu yn y mater. Dywedodd hefyd bod gohebiaeth ar y mater wedi'i dderbyn gan y Cynghorydd G. O. Parry MBE.

Diolchodd y Cynghorydd G. O. Parry MBE i'r Prif Weithredwr am ei eglurhad a gofynnodd i'r Cyngor awdurdodi'r Prif Weithredwr i ysgrifennu i Brif Weinidog Llywodraeth Cymru yn gofyn i Gynulliad Cymru ddilyn trefn o ryddhau llywodraeth leol yng Nghymru o'r ddeddfwriaeth hon, oedd yn ymyrryd gyda'r prosesau traddodiadol oedd wedi bod yn weithredol yng Nghymru, sef offrymu gweddi ar ddechrau cyfarfodydd.

**PENDERFYNWYD cytuno i weithredu yn unol â'r uchod.**

**4. COFNODION ER GWYBODAETH – BWRDD GWELLA**

Cyflwynwyd er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Gwella gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

14 Tachwedd 2011
26 Ionawr 2012

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y cofnodion o'r cyfarfodydd o'r Bwrdd Gwella.**

## 5. CYFLWYNO DEISEBAU

Ni dderbyniwyd yr un ddeiseb.

## 6. ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU – IONAWR 2012

Cafwyd cyflwyniad llafar gan Mr John Roberts o Swyddfa Archwilio Cymru ar yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Adroddwyd – Mai prif neges yr adroddiad oedd bod y Cyngor yn mynd i'r afael â gwendidau yn y ffordd yr oedd yn cynllunio ac yn gwerthuso perfformiad ond roedd gwendidau oedd yn dod i amlwg mewn rhai gwasanaethau allweddol yn adlewyrchu tan-fuddsoddiad yn y gorffennol gyda datblygu capasiti rheoli ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth.

Roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd addawol yn mynd i'r afael â gwendidau hir sefydlog gyda chynllunio'i welliant a gyda gwneud penderfyniadau, ond roedd llawer o waith yn parhau i'w wneud er mwyn sicrhau bod y newid yn gynaliadwy. Roedd yr Archwilwyr wedi canfod:-

- Bod y Comisiynwyr wedi nodi ac wedi dechrau gweithredu rhaglen o newid gyda'r bwriad o sicrhau llywodraethiant effeithiol a chynaliadwy;

- Fe gafwyd dechreuad addawol yn mynd i'r afael a blaenoriaethau ond roedd uwch reolaeth yn parhau yn fregus ac roedd yn rhy fuan dod i farn a ellid cynnal y gwelliannau yn llywodraethiant y Cyngor.

- Roedd gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â methiant y Cyngor yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf i gau ei gyfrifon erbyn y dyddiad cau penodol ond roedd dyfodol ariannol y Cyngor yn un heriol; ac

- Roedd trefniadau'r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn annhebygol o gefnogi gwelliant parhaus ac, fel gwasanaethau corfforaethol eraill, roeddent yn cael eu rhwystro gan faterion adnoddau a chapasiti.

Roedd yna rywfaint o welliant wedi bod mewn gwasanaethau llinell flaen ond roedd gwendidau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i blant a chynnydd araf o fewn y gwasanaeth ysgolion a hynny'n adlewyrchu diffyg buddsoddi yn y gorffennol o ran capasiti rheoli.

Mewn perthynas â gwasanaethau'r Cyngor i gefnogi pobl mewn angen, bu'r gwelliant yn y Gwasanaethau Plant yn hir yn dod. Roedd arolygiad AGGCC o reoli asesu a gofal ddechrau 2011 wedi gweld bod ansawdd nifer yr asesiadau yn wael, roedd yna oedi gydag asesu achosion cymhleth a difrifol, ac nid oedd asesiadau'n cael eu cwblhau mewn pryd. Fodd bynnag, roeddent hefyd wedi adrodd yn ôl bod rhai agweddau o ailfodelu gwasanaethau i bobl hŷn yn adlewyrchu cynllunio strategol ac arweiniad effeithiol.

Roedd gwasanaethau'r Cyngor i helpu pobl i ddatblygu yn wynebu nifer o heriau. Er y costau uchel a chynyddol yn y gwasanaethau i ysgolion, roedd Estyn wedi dweud wrthym, bod mwy o ysgolion Ynys Môn yn perfformio ar lefelau is na'r cyfartaledd ymysg ysgolion tebyg yng Nghymru yn 2011 ym mhob un o'r cyfnodau allweddol. Fodd bynnag, roedd y Cyngor wedi cryfhau ei Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn dilyn arolygiad beirniadol gan Estyn yn 2009.

Roedd gwasanaethau oedd â'r nôd o hyrwyddo amgylchedd dymunol a chynaliadwy wedi perfformio'n dda, ac roedd gwaith i gynyddu ffyniant yr Ynys yn dangos llawer o addewid.

I gloi, roedd adolygiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2010-11 yn cydymffurfio gyda gofynion statudol yn y rhan fwyaf o'i agweddau ond roedd diffyg amcanion clir yn cael eu gosod ar ddechrau'r flwyddyn yn ei gwneud yn amhosibl gallu gwneud unrhyw werthusiad effeithiol.

(Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau gael sesiwn o gwestiynau ac atebion yn dilyn y cyflwyniad).

Crybwyllodd y Cynghorydd Tom Jones bod yr adroddiad yn cyfeirio at y posibilrwydd o ryddhau adroddiad diddordeb y cyhoedd ynglŷn â methiant y Cyngor i gyhoeddi ei ddatganiad cyfrifon blynyddol ar amser. Roedd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i ddrafftio ym mis Ionawr ac erbyn hyn roedd y Cyngor yn gwybod na fyddai'r adroddiad o'r fath yn cael ei ryddhau ac roedd yn bwysig felly bod y ffaith honno'n cael ei dwyn i sylw'r Aelodau a'r cyhoedd.

Holodd y Cynghorydd A. Morris Jones ynglŷn â sut yr oedd Swyddfa Archwilio Cymru'n tybio bod wardiau aml-aelod yn gwella democratiaeth ar yr Ynys, gan fod hynny'n golygu uno wardiau trefol a gwledig?

Yn ei ateb, dywedodd Mr. John Roberts mai un o fanteision wardiau aml-aelod oedd y byddai hynny'n osgoi'r perygl i Aelodau ganolbwyntio gormod ar eu wardiau unigol eu hunain yn hytrach na rhoi sylw i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, nid oedd yn iawn i Swyddfa Archwilio Cymru ddweud bod yr hyn yr oedd y Comisiwn Ffiniau wedi'i awgrymu yn gywir neu'n anghywir. Roedd yn briodol i Swyddfa Archwilio Cymru edrych ar y sefyllfa ac yr oeddent yn fwy na hapus i ddilyn dyfarniad y Comisiwn Ffiniau gan mai hwy oedd yr arbenigwyr yn y maes.

Mynegodd y Cynghorydd A. Morris Jones ei bryder bod gan Swyddfa Archwilio Cymru swyddogaeth i ymyrryd yn y broses ddemocrataidd.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 7. STRATEGAETH GYLLIDEBOL TYMOR CANOLOG, CYLLIDEB, TRETH GYNGOR, RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION PWYLLOG 2012/13

Dywedodd y Cadeirydd bod sylwadau ychwanegol wedi cael eu derbyn gan aelodau'r cyhoedd ar gyllideb y Cyngor yn dilyn diweddu'r cyfnod ymgynghori ac roedd y rhain gerbron yn y cyfarfod. Yr oedd hefyd wedi derbyn llythyr gan Gyngor Tref Biwmares yn mynegi pryderon ynglŷn ag unrhyw fwriadau i gau'r Ganolfan Hamdden yno.

**7.1** Cyflwynodd y Cynghorydd H. E. Jones, Deilydd Portffolio Cysgodol Cyllid gynigion y Comisiynwyr am strategaeth gyllideb refeniw tymor canolog, cynllun cyfalaf dros dro a chyllidebau cyfalaf a refeniw am 2012/13. Diolchodd i'r Comisiynwyr, yn arbennig i'r Comisiynydd Byron Davies, am baratoi'r gyllideb. Cymerodd y cyfle hefyd i ddiolch i'r Swyddog Adran 151 Dros Dro a'i staff am eu gwaith yn paratoi'r gyllideb mewn amgylchiadau ariannol anodd.

Roedd yr aelodau wedi cael gwrandawiad teg iawn fel rhan o'r gwaith ymgynghori ar y gyllideb ac o ganlyniad i rai pryderon a leisiwyd, roedd y Comisiynwyr wedi cytuno i ddod a lefel y Dreth Gyngor i lawr o 5% i 4.5% yn 2012-13. Er nad oedd unrhyw byllau nofio yn mynd i gael eu cau, fe fyddai yna angen i allanoli nifer o'r Gwasanaethau Hamdden ac roedd hyn yn sicr o fod yn dasg anodd i'w wneud.

Adroddwyd – bod cynigion cyllideb derfynol y Comisiynwyr 2012-13 wedi'u cynnwys fel a ganlyn:-

- Tabl A – Strategaeth Cyllideb Refeniw Tymor Canolog
- Tabl B – Cyllideb Refeniw 2012-13
- Tabl C – Cynllun Cyfalaf a Chyllideb 2012-13
- Tabl CH – Dangosyddion Pwyllog

Roedd y manylion canlynol wedi'u darparu yn adroddiad y Comisiynwyr yng nghyswllt dilyn manylion Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb:-

- Os oedd y Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth gyllidebol, a oedd y gyllideb flynyddol arfaethedig yn cydymffurfio gyda'r strategaeth honno, a manylion am unrhyw symud oddi wrth hynny.
- Y Dreth Gyngor arfaethedig am y flwyddyn
- Unrhyw drawsgludiadau arfaethedig i mewn neu allan o'r arian wrth gefn;
- Crynodeb o'r gwariant arfaethedig yn ôl gwasanaeth
- Manylion am newidiadau arwyddocaol i ddarparu gwasanaeth oedd yn codi o'r gyllideb
- Y graddau yr oedd y cynigion yn cymryd i ystyriaeth adroddiadau'r Pwyllgorau

- Y graddau yr oedd y cynigion yn cymryd i ystyriaeth unrhyw waith ymgynghori oedd wedi'i wneud
- Manylion am unrhyw wahaniaethau arwyddocaol eraill rhwng y cynigion cychwynnol a'r rhai terfynol.
- Cynigion y Comisiynwyr ynglŷn â symud penawdau ariannol yn ystod y flwyddyn
- Cynigion ar gyfer benthyca
- Unrhyw faterion statudol eraill oedd i'w penderfynu gan y Cyngor llawn.

**7.2** Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Swyddog Adran 151 Dros Dro ar y gyllideb.

Adroddwyd - Er mwyn mabwysiadu ei gyllideb am y flwyddyn 2012-13 ac er mwyn penderfynu lefel y Dreth Gyngor am y flwyddyn, roedd angen i'r Cyngor Sir fabwysiadu penderfyniad ffurfiol oedd yn delio mewn peth manylder gyda'r holl faterion cysylltiedig. Roedd y Comisiynwyr wedi argymell cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor o 4.5% oedd yn cyfateb i eiddo Band D o £894.42.

Wrth iddo ystyried cyllideb arfaethedig y Comisiynwyr, fe ddylai'r Cyngor hefyd ystyried a chymryd sylw o adroddiad y Swyddog Adran 151 Dros Dro gan ei fod yn delio gyda materion statudol a materion eraill oedd eu hangen i gwblhau'r cyngor ar y gyllideb. Roedd y penderfyniad cyllidebol drafft wedi'i fwriadu i weithredu ar gynigion y Comisiynwyr ac i gymryd y Cyngor hwn i ystyriaeth.

Roedd yr adroddiad gerbron y Cyngor heddiw yn delio gyda Chadanrwydd yr Amcangyfrifon (Para 2), Digonolrwydd yr Arian Wrth Gefn (Para 3), Cyflawni'r Gyllideb (Para 4), y Côd Pwyllog a Rheoli'r Trysorlys (Para 5) a'r ffioedd ffurfiol (Para 6).

Roedd hefyd yn nodi – o roi sylw i'r Strategaeth Gyllidebol, i ragamcanion economaidd ac i'r sefyllfa fel a adroddwyd ar gadarnrwydd yr amcangyfrifon a digonolrwydd yr arian wrth gefn, argymhelliad y Swyddog Adran 151 oedd na ddylai'r cynnydd yn y Dreth Gyngor am 2012-13 fod yn is na 4.5% ac na ddylai lefel darged y balansau cyffredinol fod yn is na £5m.

Tynnodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro sylw at y newidiadau yn y Strategaeth Fuddsoddi yn dilyn y Pwyllgor Archwilio, lle'r oedd newidiadau wedi'u gwneud i baragraff 7.3 ar dudalen 10 er mwyn sicrhau y gallai'r Cyngor barhau i ddefnyddio sefydliad ariannol y stryd fawr ar gyfer ei warged dyddiol dirybudd.

Roedd y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2012-13 fel yr oedd wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ac i'r Bwrdd Comisiynwyr (fel y'i diwygiwyd) wedi'i gynnwys y flwyddyn hon yn Atodiad A i'r adroddiad hwn ac fe gynigiwyd ac eiliwyd bod y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r dogfennau cysylltiol am 2012-13 yn cael eu derbyn.

**7.3** Ystyriwyd – Y penderfyniad ffurfiol oedd wedi'i gynnwys yn adroddiad y Swyddog Adran 151 Dros Dro.

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Lewis Davies, ac a eiliwyd gan y Cynghorydd R. L. Owen, ystyriwyd y gwelliant canlynol i'r gyllideb:-

Newid y gyllideb a gynigiwyd gan y Comisiynwyr trwy ohirio'r bwriad i allanoli gwasanaethau yng Nghanolfan Hamdden Biwmares ac i gynnal trafodaethau gyda Chyngor Tref Biwmares a'r Cynghorau Cymuned cyfagos oedd yn cael eu heffeithio yn hyn o beth.

Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr bod Grŵp Tasg a Gorffen yr amser hwn y flwyddyn ddiwethaf wedi dod i'r casgliad bod y ddarpariaeth gyfredol yn y Ganolfan Hamdden yn un na ellid ei fforddio ac roedd cyllideb arfaethedig heddiw wedi cymryd i ystyriaeth y broses o drosglwyddo gwasanaethau i gorff allanol. Byddai gohirio'r cynnig hwnnw heddiw yn golygu y byddai'n rhaid gwneud toriadau eraill i'r gyllideb.

Cymerwyd pleidlais ar y mater a chollwyd y cynnig o 20 pleidlais i 7.

Gofynnodd y Cynghorydd A. Morris Jones i'r Prif Weithredwr gyflwyno adroddiad i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor Sir ar y premiwm disgyblion ynghyd â sicrwydd na fyddai yna unrhyw sleisio oddi ar dop y swm a grybwyllwyd (£643k) ac y byddai'r swm cyfan ar gael i'r ysgolion.

Mewn ymateb dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd y ffigyrau ffurfiol wedi'u derbyn hyd yn hyn o safbwynt maint a natur y grant arbennig hwn. Fe gafwyd ar ddeall y byddai amodau llym yn cael eu gosod gyda dosbarthu'r grant. Nid oedd yn gweld y byddai unrhyw broblem gydag adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar faint y grant, a sut y byddai'n cael ei dyrannu ac i ble.

Gofynnodd y Cadeirydd am i Swyddog y Wasg ryddhau datganiad i'r wasg yn dweud bod y codiad o 4.5% yn y Dreth Gyngor mewn termau cyfartaleddog yr uchaf yng Nghymru, ond bod 18 o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yn talu mwy y pen ar Band D y Dreth Gyngor, nag yr oedd Ynys Môn.

**<u>PENDERFYNIAD DRAFFT Y DRETH GYNGOR SIR</u>**

**1. PENDERFYNWYD**

**(a)** Yn unol ag argymhellion y Comisiynwyr i fabwysiadu'r Strategaeth Cyllideb Refeniw Tymor Canol yn Nhabl A, fel Strategaeth Cyllideb oddi mewn i ystyr a roddir yn y Cyfansoddiad, ac i gadarnhau y daw'n rhan o'r fframwaith cyllidebol gyda'r eithriad o'r ffigyrau a ddisgrifir fel rhai cyfredol.

**(b)** Yn unol ag argymhellion y Comisiynwyr i fabwysiadu cyllideb refeniw 2012/13 fel y gwelir honno yn Nhabl B.

**(c)** Yn unol ag argymhellion y Comisiynwyr i fabwysiadu cynllun a chyllideb cyfalaf fel y gwelir hwnnw yn Nhabl C.

**(ch)** I ddirprwyo i'r Swyddog Adran 151 y pŵer i wneud addasiadau rhwng penawdau yn Nhabl B ac i drosglwyddo o'r arian wrth gefn heb ei ddyrannu er mwyn rhoi effaith i benderfyniadau y Cyngor ar ailstrwythuro a'r penderfyniadau ar ganoli cyllidebau TGCh a fflyd.

**(d)** Dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth Tâl mewn ymgynghoriad a'r Swyddog Adran 151 y pŵer i ryddhau hyd at £1m o gyllideb ychwanegol o'r balansau os yw hyn yn angenrheidiol i gyflawni'r toriadau cymeradwyedig.

**(dd)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, ym mlwyddyn ariannol 2012/13, y pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng penawdau fel a ganlyn:

**(i)** pwerau dilyffethair i wario pob pennawd cyllidebol unigol yn Nhabl B yn erbyn pob gwasanaeth unigol, ar y gwasanaeth perthnasol;

**(ii)** pwerau i ddyrannu symiau o'r arian wrth gefn heb ei ddyrannu ac arian wrth gefn cost newid yn Nhabl B;

**(iii)** pwerau i drosglwyddo o'r arian wrth gefn diswyddo yn Nhabl B i'r raddau fod y trafodion yn adlewyrchu'r costau gwirioneddol o gyflawni arbedion staff;

**(iv)** pwerau i drosglwyddo o'r gyllideb wrth gefn Perfformiad i bwrpas gwella perfformiad ac i roddi sylw i'r risgiau uchel a nodir yn y Cynllun Gwella ac i weithredu ar gytundebau canlyniad ac i ddarparu systemau fydd yn moderneiddio'r awdurdod ac yn hwyluso'r proses o reoli perfformiad;

**(v)** y pŵer i drosglwyddo o'r Arian Wrth Gefn Gwelliannau Hamdden i bwrpas cefnogi cynigion fydd yn cynnal neu wella'r asedion yn y gwasanaeth hamdden neu yn datblygu cyfleusterau chwaraeon strategol;

**(vi)** pwerau i drosglwyddo o ffynonellau newydd neu gynyddol o incwm.

**(e)** Am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2015, dirprwyo i'r Comisiynwyr y pwerau a ganlyn:

**(i)** pwerau i wneud ymrwymiadau newydd o gyllidebau refeniw blynyddoedd y dyfodol hyd at y symiau a nodir ar gyfer blaenoriaethau newydd yn y Strategaeth Cyllideb Refeniw Tymor Canol;

**(ii)** y pwerau a'r ddyletswydd i baratoi cynlluniau i gyflawni arbedion cyllidebol refeniw fel yr awgrymir yn y Strategaeth Cyllideb Refeniw Tymor Canol;

**(iii)** pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng prosiectau cyfalaf yn Nhabl C ac ymrwymo adnoddau yn y blynyddoedd dilynol gan gydymffurfio gyda'r fframwaith cyllidebol.

**(f)** pennu'r dangosyddion pwyllog sy'n amcangyfrifon am 2012/13 ymlaen fel sy'n ymddangos yn Nhabl Ch gan gadarnhau'r terfynau ar fenthyca a buddsoddi sydd wedi eu nodi yn eitemau 10,11 a 14 i 17 yn y tabl.

**(ff)** Cadarnhau y bydd eitemau 1 (b) i (f) yn dod yn rhan o'r fframwaith cyllidebol.

**2.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2012/13 benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 1998, bod y Cyngor Sir yn pennu lefel y disgownt sy'n gymwys i'r Dosbarth penodedig A a Dosbarth penodedig B o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, fel a ganlyn:

Dosbarth Penodedig A    Dim Disgownt
Dosbarth Penodedig B    Dim Disgownt

**3.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2012/13, benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2007 bod y Cyngor Sir yn pennu lefel disgownt sy'n briodol i Ddosbarth penodedig C o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004, fel a ganlyn:

Dosbarth Penodedig C    Dim Disgownt

**4.** Nodi fod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 1996 wedi penderfynu na fydd yn trin y costau yr â'r Cyngor iddynt yn rhan o'i ardal nac wrth gyfarfod unrhyw gais neu gais arbennig fel costau arbennig a bod y penderfyniadau i barhau mewn grym hyd oni fyddant yn cael ei diddymu'n benodol.

**5.** Y dylid nodi i'r Bwrdd y Comisiynwyr, yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd 2011 bennu'r symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2012/13 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd da n Adran 33(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:

**a)** 29,856.38 yw'r swm a bennwyd gan y Bwrdd y Comisiynwyr, yn unol â rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995, yn sail y Dreth Gyngor am y flwyddyn.

**b)** **Rhan o Ardal y Cyngor**

| | |
|---|---:|
| Amlwch | 1,435.56 |
| Biwmares | 1,055.37 |
| Caergybi | 3,746.80 |
| Llangefni | 1,868.82 |
| Porthaethwy | 1,372.67 |
| Llanddaniel-fab | 362.37 |
| Llanddona | 354.47 |

**b)** **Rhan o Ardal y Cyngor**

| | |
|---|---|
| Cwm Cadnant | 1,114.90 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,295.30 |
| Llanfihangel Esceifiog | 654.83 |
| Bodorgan | 428.02 |
| Llangoed | 617.11 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 588.13 |
| Llanidan | 398.75 |
| Rhosyr | 948.37 |
| Penmynydd | 221.77 |
| Pentraeth | 544.69 |
| Moelfre | 607.79 |
| Llanbadrig | 651.98 |
| Llanddyfnan | 477.17 |
| Llaneilian | 540.90 |
| Llannerch-y-medd | 492.38 |
| Llaneugrad | 184.00 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 1,715.81 |
| Cylch y Garn | 404.19 |
| Mechell | 541.25 |
| Rhos-y-bol | 454.37 |
| Aberffraw | 279.93 |
| Bodedern | 407.20 |
| Bodffordd | 410.52 |
| Trearddur | 1,196.81 |
| Tref Alaw | 254.58 |
| Llanfachraeth | 220.25 |
| Llanfaelog | 1,184.36 |
| Llanfaethlu | 275.24 |
| Llanfair-yn-neubwll | 562.78 |
| Y Fali | 948.50 |
| Bryngwran | 340.91 |
| Rhoscolyn | 345.63 |
| Trewalchmai | 351.90 |

sef y symiau a bennwyd gan y Bwrdd y Comisiynwyr, yn unol â rheoliad 6 y Rheoliadau, yn symiau sail y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn gyda golwg ar y tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

**6.** Bod y symiau a ganlyn bellach yn cael eu pennu gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2012/13 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:

**a)** £177,158,412 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2) (a) i (d) y Ddeddf.

**b)** £ 57,206,950 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3) (a) ac (c) y Ddeddf.

**c)** £119,951,462 sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 6(a) uchod a chyfanswm 6(b) uchod, a bennwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf, yn gyllideb angenrheidiol ar gyfer y flwyddyn.

**ch)** £ 92,330,751 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i gronfa'r cyngor gyda golwg ar drethi

annomestig a ail-ddosberthir, a grant cynnal refeniw gan dynnu unrhyw swm a bennwyd yn unol ag Adran 33(3B) y Ddeddf.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **d)** | £ | 925.12 | sef y swm yn 6(c) uchod llai'r swm yn 6(ch) uchod, gan rannu'r cyfan â'r swm a nodir yn56(a) uchod, a bennwyd gan y Bwrdd y Comisiynwyr, yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn. |
| **dd)** | £ | 916,701.71 | sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) y Ddeddf. |
| **e)** | £ | 894.42 | sef y swm yn 6(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 6(dd) uchod â'r swm yn 5(a) uchod, a bennwyd gan y Bwrdd y Comisiynwyr, yn unol ag Adran 34 (2) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'r ardal lle na fo unrhyw eitem arbennig yn berthnasol. |

**f)** **Rhan o Ardal y Cyngor**

| | | D |
|---|---|---|
| Amlwch | £ | 959.22 |
| Biwmares | £ | 919.60 |
| Caergybi | £ | 965.50 |
| Llangefni | £ | 949.02 |
| Porthaethwy | £ | 941.77 |
| Llanddaniel-fab | £ | 910.43 |
| Llanddona | £ | 908.95 |
| Cwm Cadnant | £ | 919.98 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 919.90 |
| Llanfihangel Esceifiog | £ | 914.35 |
| Bodorgan | £ | 911.19 |
| Llangoed | £ | 909.18 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 901.46 |
| Llanidan | £ | 913.98 |
| Rhosyr | £ | 911.21 |
| Penmynydd | £ | 906.14 |
| Pentraeth | £ | 916.45 |
| Moelfre | £ | 911.92 |
| Llanbadrig | £ | 908.22 |
| Llanddyfnan | £ | 908.84 |
| Llaneilian | £ | 907.42 |
| Llannerch-y-medd | £ | 905.35 |
| Llaneugrad | £ | 913.44 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 919.81 |
| Cylch y Garn | £ | 906.17 |
| Mechell | £ | 908.00 |
| Rhos-y-bol | £ | 907.63 |
| Aberffraw | £ | 915.85 |
| Bodedern | £ | 906.70 |
| Bodffordd | £ | 906.60 |
| Trearddur | £ | 912.23 |
| Tref Alaw | £ | 908.95 |
| Llanfachraeth | £ | 912.92 |
| Llanfaelog | £ | 910.72 |
| Llanfaethlu | £ | 911.68 |
| Llanfair-yn-neubwll | £ | 909.26 |
| Y Fali | £ | 917.30 |
| Bryngwran | £ | 918.47 |
| Rhoscolyn | £ | 901.65 |
| Trewalchmai | £ | 910.05 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu at y swm a geir yn 6(e) uchod symiau'r eitem neu'r eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 5(b) uchod, a bennwyd gan y Bwrdd y Comisiynwyr yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, sef sail y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

**Bandiau Prisiau**

**ff)**

| **Rhan o Ardal y Cyngor** | | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amlwch | £ | 639.48 | 746.06 | 852.64 | 959.22 | 1,172.38 | 1,385.54 | 1,598.70 | 1,918.44 | 2,238.17 |
| Biwmares | £ | 613.07 | 715.25 | 817.43 | 919.60 | 1,123.96 | 1,328.32 | 1,532.67 | 1,839.21 | 2,145.74 |
| Caergybi | £ | 643.67 | 750.94 | 858.22 | 965.50 | 1,180.05 | 1,394.61 | 1,609.17 | 1,931.00 | 2,252.83 |
| Llangefni | £ | 632.68 | 738.13 | 843.57 | 949.02 | 1,159.91 | 1,370.81 | 1,581.70 | 1,898.04 | 2,214.38 |
| Porthaethwy | £ | 627.85 | 732.49 | 837.13 | 941.77 | 1,151.06 | 1,360.34 | 1,569.62 | 1,883.55 | 2,197.47 |
| Llanddaniel-fab | £ | 606.95 | 708.11 | 809.27 | 910.43 | 1,112.74 | 1,315.06 | 1,517.38 | 1,820.85 | 2,124.33 |
| Llanddona | £ | 605.97 | 706.96 | 807.95 | 908.95 | 1,110.94 | 1,312.93 | 1,514.91 | 1,817.90 | 2,120.88 |
| Cwm Cadnant | £ | 613.32 | 715.54 | 817.76 | 919.98 | 1,124.42 | 1,328.86 | 1,533.30 | 1,839.97 | 2,146.63 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 613.26 | 715.48 | 817.69 | 919.90 | 1,124.32 | 1,328.74 | 1,533.16 | 1,839.79 | 2,146.43 |
| Llanfihangel Esceifiog | £ | 609.57 | 711.16 | 812.75 | 914.35 | 1,117.54 | 1,320.73 | 1,523.91 | 1,828.70 | 2,133.48 |
| Bodorgan | £ | 607.46 | 708.71 | 809.95 | 911.19 | 1,113.68 | 1,316.17 | 1,518.66 | 1,822.39 | 2,126.12 |
| Llangoed | £ | 606.12 | 707.14 | 808.16 | 909.18 | 1,111.22 | 1,313.26 | 1,515.30 | 1,818.36 | 2,121.42 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 600.97 | 701.14 | 801.30 | 901.46 | 1,101.78 | 1,302.11 | 1,502.43 | 1,802.92 | 2,103.41 |
| Llanidan | £ | 609.32 | 710.87 | 812.43 | 913.98 | 1,117.09 | 1,320.19 | 1,523.30 | 1,827.96 | 2,132.62 |
| Rhosyr | £ | 607.48 | 708.72 | 809.97 | 911.21 | 1,113.71 | 1,316.20 | 1,518.69 | 1,822.43 | 2,126.17 |
| Penmynydd | £ | 604.10 | 704.78 | 805.46 | 906.14 | 1,107.51 | 1,308.87 | 1,510.24 | 1,812.29 | 2,114.34 |
| Pentraeth | £ | 610.97 | 712.80 | 814.62 | 916.45 | 1,120.11 | 1,323.76 | 1,527.42 | 1,832.90 | 2,138.39 |
| Moelfre | £ | 607.95 | 709.27 | 810.60 | 911.92 | 1,114.57 | 1,317.22 | 1,519.87 | 1,823.84 | 2,127.81 |
| Llanbadrig | £ | 605.48 | 706.40 | 807.31 | 908.22 | 1,110.05 | 1,311.88 | 1,513.71 | 1,816.45 | 2,119.19 |
| Llanddyfnan | £ | 605.89 | 706.87 | 807.85 | 908.84 | 1,110.80 | 1,312.76 | 1,514.73 | 1,817.67 | 2,120.62 |
| Llaneilian | £ | 604.95 | 705.77 | 806.59 | 907.42 | 1,109.07 | 1,310.72 | 1,512.36 | 1,814.84 | 2,117.31 |
| Llannerch-y-medd | £ | 603.57 | 704.16 | 804.76 | 905.35 | 1,106.54 | 1,307.73 | 1,508.92 | 1,810.71 | 2,112.49 |
| Llaneugrad | £ | 608.96 | 710.45 | 811.95 | 913.44 | 1,116.43 | 1,319.42 | 1,522.40 | 1,826.88 | 2,131.36 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 613.21 | 715.41 | 817.61 | 919.81 | 1,124.21 | 1,328.62 | 1,533.02 | 1,839.62 | 2,146.23 |
| Cylch y Garn | £ | 604.11 | 704.80 | 805.49 | 906.17 | 1,107.54 | 1,308.91 | 1,510.29 | 1,812.34 | 2,114.40 |
| Mechell | £ | 605.33 | 706.22 | 807.11 | 908.00 | 1,109.78 | 1,311.56 | 1,513.33 | 1,816.00 | 2,118.67 |
| Rhos-y-bol | £ | 605.08 | 705.93 | 806.78 | 907.63 | 1,109.32 | 1,311.01 | 1,512.71 | 1,815.25 | 2,117.79 |
| Aberffraw | £ | 610.57 | 712.33 | 814.09 | 915.85 | 1,119.38 | 1,322.90 | 1,526.42 | 1,831.71 | 2,136.99 |
| Bodedern | £ | 604.47 | 705.21 | 805.95 | 906.70 | 1,108.19 | 1,309.68 | 1,511.16 | 1,813.40 | 2,115.63 |
| Bodffordd | £ | 604.40 | 705.13 | 805.87 | 906.60 | 1,108.07 | 1,309.53 | 1,511.00 | 1,813.20 | 2,115.40 |
| Trearddur | £ | 608.15 | 709.51 | 810.87 | 912.23 | 1,114.95 | 1,317.67 | 1,520.39 | 1,824.46 | 2,128.54 |
| Tref Alaw | £ | 605.97 | 706.96 | 807.96 | 908.95 | 1,110.94 | 1,312.93 | 1,514.92 | 1,817.91 | 2,120.89 |
| Llanfachraeth | £ | 608.61 | 710.05 | 811.48 | 912.92 | 1,115.79 | 1,318.66 | 1,521.53 | 1,825.83 | 2,130.14 |
| Llanfaelog | £ | 607.14 | 708.33 | 809.53 | 910.72 | 1,113.10 | 1,315.48 | 1,517.86 | 1,821.43 | 2,125.00 |
| Llanfaethlu | £ | 607.79 | 709.08 | 810.38 | 911.68 | 1,114.27 | 1,316.87 | 1,519.46 | 1,823.36 | 2,127.25 |
| Llanfair-yn-neubwll | £ | 606.17 | 707.20 | 808.23 | 909.26 | 1,111.31 | 1,313.37 | 1,515.43 | 1,818.51 | 2,121.60 |
| Y Fali | £ | 611.53 | 713.46 | 815.38 | 917.30 | 1,121.14 | 1,324.99 | 1,528.83 | 1,834.60 | 2,140.37 |
| Bryngwran | £ | 612.32 | 714.37 | 816.42 | 918.47 | 1,122.58 | 1,326.68 | 1,530.79 | 1,836.95 | 2,143.10 |
| Rhoscolyn | £ | 601.10 | 701.29 | 801.47 | 901.65 | 1,102.02 | 1,302.39 | 1,502.76 | 1,803.31 | 2,103.86 |
| Trewalchmai | £ | 606.70 | 707.82 | 808.93 | 910.05 | 1,112.28 | 1,314.52 | 1,516.75 | 1,820.10 | 2,123.45 |

sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 6(e) a 6(f) uchod a'r rhif sydd, yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5(1) y Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisiau arbennig wedi'i rannu a'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisiau D, a bennir gan y Bwrdd y Comisiynwyr, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn gyda golwg ar y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisiau.

**7.** Y dylid nodi ar gyfer y flwyddyn 2012/13 fod Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:

| **Awdurdod Praeseptio** | **Bandiau Prisiau** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru | 143.04 | 166.88 | 190.72 | 214.56 | 262.24 | 309.92 | 357.60 | 429.12 | 500.64 |

**8.** Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn 6(ff) a 7 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn, yn pennu'r symiau a ganlyn ar gyfer y dreth gyngor yn y flwyddyn 2012/13 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir isod:

**Bandiau Prisiau**

| **Rhan o Ardal y Cyngor** | | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amlwch | £ | 782.52 | 912.94 | 1,043.36 | 1,173.78 | 1,434.62 | 1,695.46 | 1,956.30 | 2,347.56 | 2,738.81 |
| Biwmares | £ | 756.11 | 882.13 | 1,008.15 | 1,134.16 | 1,386.20 | 1,638.24 | 1,890.27 | 2,268.33 | 2,646.38 |
| Caergybi | £ | 786.71 | 917.82 | 1,048.94 | 1,180.06 | 1,442.29 | 1,704.53 | 1,966.77 | 2,360.12 | 2,753.47 |
| Llangefni | £ | 775.72 | 905.01 | 1,034.29 | 1,163.58 | 1,422.15 | 1,680.73 | 1,939.30 | 2,327.16 | 2,715.02 |
| Porthaethwy | £ | 770.89 | 899.37 | 1,027.85 | 1,156.33 | 1,413.30 | 1,670.26 | 1,927.22 | 2,312.67 | 2,698.11 |
| Llanddaniel-fab | £ | 749.99 | 874.99 | 999.99 | 1,124.99 | 1,374.98 | 1,624.98 | 1,874.98 | 2,249.97 | 2,624.97 |
| Llanddona | £ | 749.01 | 873.84 | 998.67 | 1,123.51 | 1,373.18 | 1,622.85 | 1,872.51 | 2,247.02 | 2,621.52 |
| Cwm Cadnant | £ | 756.36 | 882.42 | 1,008.48 | 1,134.54 | 1,386.66 | 1,638.78 | 1,890.90 | 2,269.09 | 2,647.27 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 756.30 | 882.36 | 1,008.41 | 1,134.46 | 1,386.56 | 1,638.66 | 1,890.76 | 2,268.91 | 2,647.07 |
| Llanfihangel Esceifiog | £ | 752.61 | 878.04 | 1,003.47 | 1,128.91 | 1,379.78 | 1,630.65 | 1,881.51 | 2,257.82 | 2,634.12 |
| Bodorgan | £ | 750.50 | 875.59 | 1,000.67 | 1,125.75 | 1,375.92 | 1,626.09 | 1,876.26 | 2,251.51 | 2,626.76 |
| Llangoed | £ | 749.16 | 874.02 | 998.88 | 1,123.74 | 1,373.46 | 1,623.18 | 1,872.90 | 2,247.48 | 2,622.06 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | £ | 744.01 | 868.02 | 992.02 | 1,116.02 | 1,364.02 | 1,612.03 | 1,860.03 | 2,232.04 | 2,604.05 |
| Llanidan | £ | 752.36 | 877.75 | 1,003.15 | 1,128.54 | 1,379.33 | 1,630.11 | 1,880.90 | 2,257.08 | 2,633.26 |
| Rhosyr | £ | 750.52 | 875.60 | 1,000.69 | 1,125.77 | 1,375.95 | 1,626.12 | 1,876.29 | 2,251.55 | 2,626.81 |
| Penmynydd | £ | 747.14 | 871.66 | 996.18 | 1,120.70 | 1,369.75 | 1,618.79 | 1,867.84 | 2,241.41 | 2,614.98 |
| Pentraeth | £ | 754.01 | 879.68 | 1,005.34 | 1,131.01 | 1,382.35 | 1,633.68 | 1,885.02 | 2,262.02 | 2,639.03 |
| Moelfre | £ | 750.99 | 876.15 | 1,001.32 | 1,126.48 | 1,376.81 | 1,627.14 | 1,877.47 | 2,252.96 | 2,628.45 |
| Llanbadrig | £ | 748.52 | 873.28 | 998.03 | 1,122.78 | 1,372.29 | 1,621.80 | 1,871.31 | 2,245.57 | 2,619.83 |
| Llanddyfnan | £ | 748.93 | 873.75 | 998.57 | 1,123.40 | 1,373.04 | 1,622.68 | 1,872.33 | 2,246.79 | 2,621.26 |
| Llaneilian | £ | 747.99 | 872.65 | 997.31 | 1,121.98 | 1,371.31 | 1,620.64 | 1,869.96 | 2,243.96 | 2,617.95 |
| Llannerch-y-medd | £ | 746.61 | 871.04 | 995.48 | 1,119.91 | 1,368.78 | 1,617.65 | 1,866.52 | 2,239.83 | 2,613.13 |
| Llaneugrad | £ | 752.00 | 877.33 | 1,002.67 | 1,128.00 | 1,378.67 | 1,629.34 | 1,880.00 | 2,256.00 | 2,632.00 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 756.25 | 882.29 | 1,008.33 | 1,134.37 | 1,386.45 | 1,638.54 | 1,890.62 | 2,268.74 | 2,646.87 |
| Cylch y Garn | £ | 747.15 | 871.68 | 996.21 | 1,120.73 | 1,369.78 | 1,618.83 | 1,867.89 | 2,241.46 | 2,615.04 |
| Mechell | £ | 748.37 | 873.10 | 997.83 | 1,122.56 | 1,372.02 | 1,621.48 | 1,870.93 | 2,245.12 | 2,619.31 |
| Rhos-y-bol | £ | 748.12 | 872.81 | 997.50 | 1,122.19 | 1,371.56 | 1,620.93 | 1,870.31 | 2,244.37 | 2,618.43 |
| Aberffraw | £ | 753.61 | 879.21 | 1,004.81 | 1,130.41 | 1,381.62 | 1,632.82 | 1,884.02 | 2,260.83 | 2,637.63 |
| Bodedern | £ | 747.51 | 872.09 | 996.67 | 1,121.26 | 1,370.43 | 1,619.60 | 1,868.76 | 2,242.52 | 2,616.27 |
| Bodffordd | £ | 747.44 | 872.01 | 996.59 | 1,121.16 | 1,370.31 | 1,619.45 | 1,868.60 | 2,242.32 | 2,616.04 |
| Trearddur | £ | 751.19 | 876.39 | 1,001.59 | 1,126.79 | 1,377.19 | 1,627.59 | 1,877.99 | 2,253.58 | 2,629.18 |
| Tref Alaw | £ | 749.01 | 873.84 | 998.68 | 1,123.51 | 1,373.18 | 1,622.85 | 1,872.52 | 2,247.03 | 2,621.53 |

| | | Bandiau Prisiau | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan o Ardal y Cyngor** | | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Llanfachraeth | £ | 751.65 | 876.93 | 1,002.20 | 1,127.48 | 1,378.03 | 1,628.58 | 1,879.13 | 2,254.95 | 2,630.78 |
| Llanfaelog | £ | 750.18 | 875.21 | 1,000.25 | 1,125.28 | 1,375.34 | 1,625.40 | 1,875.46 | 2,250.55 | 2,625.64 |
| Llanfaethlu | £ | 750.83 | 875.96 | 1,001.10 | 1,126.24 | 1,376.51 | 1,626.79 | 1,877.06 | 2,252.48 | 2,627.89 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 749.21 | 874.08 | 998.95 | 1,123.82 | 1,373.55 | 1,623.29 | 1,873.03 | 2,247.63 | 2,622.24 |
| Y Fali | £ | 754.57 | 880.34 | 1,006.10 | 1,131.86 | 1,383.38 | 1,634.91 | 1,886.43 | 2,263.72 | 2,641.01 |
| Bryngwran | £ | 755.36 | 881.25 | 1,007.14 | 1,133.03 | 1,384.82 | 1,636.60 | 1,888.39 | 2,266.07 | 2,643.74 |
| Rhoscolyn | £ | 744.14 | 868.17 | 992.19 | 1,116.21 | 1,364.26 | 1,612.31 | 1,860.36 | 2,232.43 | 2,604.50 |
| Trewalchmai | £ | 749.74 | 874.70 | 999.65 | 1,124.61 | 1,374.52 | 1,624.44 | 1,874.35 | 2,249.22 | 2,624.09 |

**7.4 CYNLLUN CORFFORAETHOL 2012-15**

Cyflwynwyd – Adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) oedd yn rhoi diweddariad am yr ymarferiad ymgynghori (ddaeth i ben ar 10 Chwefror 2012) ar Gynllun Busnes Corfforaethol 3 Blynedd arfaethedig Cyngor Sir Ynys Môn.

**PENDERFYNWYD fel rhan o'r cynigion Cyllidebol, i gymeradwyo a mabwysiadu'r Cynllun Busnes Corfforaethol 2012-15 a bod awdurdod yn cael ei roddi i'r Prif Weithredwr i gwblhau'r Cynllun erbyn 1 Ebrill 2012, mewn ymgynghoriad gyda Phwyllgor Gwaith Cysgodol y Cyngor a'r Comisiynwyr.**

**8. TRYDYDD ADRODDIAD CYNNYDD CHWARTEROL Y COMISIYNWYR**

Cyflwynodd y Comisiynydd Mick Giannasi 3ydd adroddiad cynnydd chwarterol y Comisiynwyr.

Casgliad yr adroddiad oedd bod cynnydd sylweddol wedi'i weld mewn nifer o feysydd allweddol. Fodd bynnag, roedd yn dal yn rhy fuan i argymell y dylid dychwelyd i reolaeth ddemocrataidd lawn neu y dylid dod ag ymyrraeth Llywodraeth Cymru i ben.

Roedd yna arwyddion cadarnhaol bod y broses wella yn parhau, ond roedd gwaith yn parhau i fod angen ei wneud i ddarparu yn erbyn argymhellion rhai adroddiadau arolygu, yn ogystal â datblygu ymhellach rai materion strategol fel gweledigaeth, gwerthoedd a diwylliant sefydliadol yr oedd eu hangen ar gyfer darparu adferiad cynaliadwy yn y tymor hir.

Byddai'r Comisiynwyr yn parhau i weithio gyda swyddogion ac aelodau etholedig i ddatblygu eu capasiti a'u gallu i barhau gyda'u rheolaeth o'r Cyngor, os a phan y byddai'r Gweinidog yn penderfynu bod hynny'n briodol.

Roedd 3ydd adroddiad cynnydd Chwarterol y Comisiynwyr yn delio â'r cyfnod rhwng Medi a Rhagfyr 2011 ac yn amlygu nifer o welliannau mewn perfformiad a llywodraethu corfforaethol gyda hynny'n allweddol i adferiad cynaliadwy tymor hir.

Byddai adroddiad Chwarter 4 yn canolbwyntio ar asesiad y Comisiynwyr o'r tebygrwydd y gall aelodau etholedig ail-gymryd rhan gyda gyrru cyfeiriad y Cyngor a'i reoli.

Yn dilyn cafwyd sesiwn o holi ac ateb i'r aelodau.

**PENDERFYNWYD derbyn cynnwys yr adroddiad.**

**9. NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR**

Newidiadau i'r rhannau canlynol o'r Cyfansoddiad:-

Erthygl 12 – Swyddogion

Para 3.2 – Cyfrifoldeb y Cyngor am swyddogaethau
Para 3.4.9 – Panel Penodi
Para 3.5 – Cynllun Dirprwyo i Swyddogion
Para 4.10 - Rheolau Gweithdrefn Cyflogaeth Swyddogion
Rhan 7 – Strwythur Rheoli

Adroddwyd – Bod y Bwrdd Comisiynwyr yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2012, wedi penderfynu fel a ganlyn:-

*"argymell i'r Cyngor Sir ac i Weinidogion Cymru ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor yn y modd a nodir yn yr adroddiad a rhoi'r awdurdod i'r Swyddogion wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Cyfansoddiad."*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r newidiadau oedd yn cael eu hargymell gan y Bwrdd Comisiynwyr; bod y Gweinidog yn cael gwybodaeth am y newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad all, yn y pen draw, gael eu gweithredu gan y Comisiynwyr yn unol â Gorchymyn y Gweinidog dyddiedig 26 Chwefror 2012.**

**10. CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL**

Adroddwyd bod y Bwrdd Comisiynwyr yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2012 wedi penderfynu:-

*"argymell i'r Cyngor Sir fod Cynllun Cydraddoldebau Strategol drafft y Cyngor ar gyfer 2012-16 yn cael ei gymeradwyo a rhoi'r awdurdod i'r swyddogion, mewn ymgynghoriad gyda'r Comisiynydd perthnasol , i gwblhau a chyhoeddi'r Cynllun erbyn 2 Ebrill 2012."*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Comisiynwyr yn hyn o beth.**

**11. ADOLYGIAD I'R CYNLLUN IAITH GYMRAEG**

Adroddwyd – Bod y Bwrdd Comisiynwyr yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2012, wedi penderfynu:-

*"argymell i'r Cyngor Sir fod y Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig yn cael ei gymeradwyo a rhoi'r awdurdod i'r swyddogion, mewn ymgynghoriad gyda'r Comisiynydd perthnasol, i gwblhau a chyhoeddi'r Cynllun."*

Mynegodd y Cynghorydd Rhian Medi ei phryderon bod yr iaith Gymraeg yn y Cyngor hwn yn cael ei thanseilio ac yn fwyfwy felly ers yr ymyriad. Roedd yr adroddiad yn crybwyll dwyieithrwydd a statws cyfartal i'r Saesneg ac i'r Gymraeg. Roedd yn teimlo nad oedd hyn yn cael ei weithredu ar draws y Cyngor ac nad oedd yn sicr yn cael ei barchu gan y Gweinidog yn ei ddewis o benodiadau. Roedd yna fwy o bobl yn awr yn siarad Saesneg o fewn y Cyngor ac roedd yn ystyried bod yr iaith Gymraeg wedi dirywio o ganlyniad i hynny.

Mewn un Pwyllgor Sgriwtini fe gafodd adroddiad ei gyflwyno yn Saesneg yn unig, ac roedd yn ystyried bod hynny'n sarhad personol arni hi fel siaradwr Cymraeg. I'r run graddau, roedd wedi gweld fersiynau Cymraeg o adroddiadau'n cael eu hanfon allan ar wahân gan un Adran arbennig o fewn y Cyngor. Roedd yn ystyried nad oedd y neges o safbwynt y polisi iaith yn treiddio trwodd i bob rhan o'r Cyngor.

Roedd hefyd yn ymwybodol bod cwmni o Swydd Efrog wedi ffonio'r cyhoedd yn gofyn am eu safbwyntiau ar y Cyngor. Nid oedd unrhyw ddarpariaeth wedi'i wneud i'r ymholiadau hyn gael eu gwneud yn Gymraeg. Os mai'r Cyngor oedd wedi comisiynu'r astudiaeth, yna roedd yn torri ei bolisi iaith Gymraeg ei hun. Roedd yr aelod eisiau i'r polisi hwnnw gael ei gryfhau gyda llawer mwy o statws yn cael ei roi iddo. I'r perwyl hwnnw, roedd eisiau i'r polisi gael ei adolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Yr oedd hefyd eisiau sicrwydd y byddai unrhyw waith a fyddai'n cael ei gomisiynu gan y Cyngor hwn yn hollol ddwyieithog.

Dywedodd y Prif Weithredwr mewn ymateb mai'r hyn oedd gerbron y Cyngor heddiw oedd y polisi ei hun. Mater arall oedd sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu'n gyson, yn effeithiol ac ym mhob agwedd o waith y Cyngor. Fe ddylai'r Cyngor fod yn sgriwtineiddio ei holl brif bolisïau ac fe ddylai fod yn cwestiynu'n fanwl a oedd pawb yn cydymffurfio gyda'r polisïau hynny. Roedd disgwyl i Benaethiaid Gwasanaeth gyfathrebu holl ddisgwyliadau'r polisi hwn i'w staff ac wedyn fe fyddai'n rhaid i staff weithredu yn unol â gofynion hynny.

Dywedodd y Cynghorydd J. Penri Williams bod plant oedd wedi'u haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn perfformio'n well mewn arholiadau TGAU yn Saesneg na'r rhai oedd wedi'u haddysgu yn yr iaith Saesneg yn unig. Roedd yna felly fanteision mawr o fod yn ddwyieithog.

Gofynnodd y Cynghorydd Selwyn Williams i'r Cynghorydd Rhian Medi ysgrifennu iddo fel Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gyda golwg ar i'r Pwyllgor hwnnw drafod a mynd i'r afael a'i chŵyn.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Comisiynwyr gyda'r uchod.**

**12. COMPACT LLYWODRAETH CYMRU**

(A) Adroddwyd – Bod y Bwrdd Comisiynwyr yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2012, wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn:-

- *Ei fod, mewn egwyddor, yn llofnodi'r Compact er mwyn adlewyrchu manteision cydweithio ar lefelau lleol, isranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol;*
- *Cytuno i gynllunio rôl briodol o ran gweithredu'r amrediad llawn o feysydd cydweithio yn y Compact ar yr amod:*

  *(a) Bod modd profi y bydd gwelliant yn y gwasanaethau a roddir i drigolion Ynys Môn ac na fyddai effaith andwyol ar y gwasanaethau a ddarperir.*
  *(b) Bod arbedion o ran adnoddau i'r Cyngor Sir a bod y model gwasanaeth newydd arfaethedig yn darparu gwasanaeth i drigolion sydd o leiaf cystal â'r gwasanaeth y mae'n bwriadu ei ddisodli.*

- *Mae angen rhoi mwy o bwyslais yng Nghontractau Gweithredu'r Compact ar fantais cydweithio yn y maes Datblygu Economaidd a Thwristiaeth.*
- *Bod adroddiad diweddaru chwarterol yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Comisiynwyr ar gyflawni'r Compact yn lleol.*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Comisiynwyr fel yr uchod.**

(B) Adroddwyd – Bod y Bwrdd Comisiynwyr yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2012 ac yn dilyn ystyried adroddiad gan Gomisiynwyr ar "*Gynaliadwyaeth Ynys Môn Trwy Gydweithredu"* wedi penderfynu hefyd argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn:-

*"y dylid gofyn i'r Prif Weithredwr gymryd y camau isod yn ystod Mawrth 2012:-*

- *Mynd i Gytundeb Compact rhwng Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;*
- *Sefydlu dull di-dor tuag at gydweithio lleol, isranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol fel sail i sicrhau darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon ar gyfer swyddogaethau economaidd, cymunedol a dysgu gydol oes fel rhan o Gynllun Corfforaethol Ynys Môn ar gyfer 2012-15;*
- *Cytuno ar drefniadau yn ystod mis Mawrth 2012 gyda CYNNAL i ymdrin â dysgu gydol oes yn lleol ac isranbarthol trwy drefniant penodiad ar y cyd a/neu dynnu i lawr wasanaeth o CYNNAL i sefydlu mas critigol o sgiliau a phrofiad Dysgu Gydol Oes;*
- *Ategu at uwch grŵp Arweinyddiaeth Ynys Môn gyda darpariaeth CYNNAL i ymdrin â Dysgu Gydol Oes a chyfrannu'n llawn at y model cydweithio lleol, isranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion;*
- *Cefnogi Model Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru, yn amodol ar gytundeb terfynol rhwng holl awdurdodau Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru ar gryfhau'r Achos Busnes llawn fel y nodir yn yr adroddiad hwn."*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Comisiynwyr fel yr uchod.**

(C) Materion Brys (gyda chaniatâd Cadeirydd y Cyngor Sir)

Adroddwyd gan y Prif Weithredwr - bod y Bwrdd Comisiynwyr yn dilyn ystyried adroddiad ddoe, wedi trafod cydweithredu yng nghyswllt Addysg ar lefel Gogledd Cymru. Wrth drafod y mater roedd y Comisiynwyr wedi rhoi'r holl bwnc mewn cyd-destun ehangach sef cydweithredu ar lefel leol, ranbarthol, ac isranbarthol ac y dylai Ynys Môn fod yn barod i chwarae rôl fwy gweithredol. Er mwyn sicrhau hynny, roedd y Comisiynwyr yn awyddus i weld Uwch Grŵp Arweinyddiaeth y Cyngor yn cael ei gryfhau.

Yn dilyn penderfyniad y Cyngor heddiw byddai hysbysebion yn ymddangos am y swyddi newydd hynny o fewn yr Uwch Grŵp Arweinyddiaeth. Mewn gwirionedd fyddai'n cymryd rhai wythnosau os nad misoedd cyn y gellid penodi'r tîm newydd hwnnw. Roedd Rheoleiddwyr, Llywodraeth Cymru a'r Comisiynwyr o'r farn bod yr Awdurdod angen y capasiti hwnnw yn y cyfamser. Roedd y Comisiynwyr yn awyddus i sefydlu'r Uwch Grŵp Arweinyddiaeth ar sail dros dro ac yn gyfochrog â hynny, byddai'r Cyngor yn symud ymlaen i recriwtio i'r swyddi hynny yn barhaol. Nid oedd yn dilyn y byddai'r swyddi dros dro wedyn yn dod yn rhai parhaol.

Gofynnodd y Cynghorydd Rhian Medi am gael sicrwydd - pe bai'r Cyngor yn cymeradwyo swyddogion dros dro, na fyddai hynny yn cael ei gymryd fel esgus unwaith yn rhagor i anwybyddu polisi dwyieithrwydd y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd A. Morris Jones y byddai wedi hoffi gweld adroddiad ar y mater hwn gerbron y Cyngor heddiw. Wrth gwrs roedd yn croesawu cydweithredu ond roedd yn bwysig sicrhau bod unrhyw gydweithredu o fantais i Fôn. Gofynnodd faint yn union yr oedd y swyddi dros dro hyn yn mynd i'w gostio ac a oeddent wedi'u cynnwys wrth benderfynu ar y gyllideb? Dywedodd ei fod wedi gwneud sylwadau yn y Cyngor ar ddau achlysur ac unwaith mewn Pwyllgor penodol ac roedd yr hyn yr oedd wedi'i ddweud wedi cael ei gam-gyflwyno yn y cofnodion. Roedd am i'r pwynt hwnnw gael ei nodi yng nghofnodion heddiw.

Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n rhaid i unrhyw brosiect neu wasanaeth trwy gydweithredu gydymffurfio gyda'n gofynion polisi ni fel Cyngor o ran iaith. Roedd darpariaeth wedi'i wneud yn y gyllideb ar gyfer gweithredu'r strwythur Uwch Grŵp Arweinyddiaeth newydd o 1 Ebrill, er na fydd y swyddi parhaol, mae'n debyg yn eu lle hyd fis Medi.

Yng nghyswllt y sylw a wnaed ynglŷn â'r cofnodion, roedd yn tybio bod yn rhaid sefydlu beth yn union oedd angen ei gofnodi. Nid oedd pob sylw oedd yn cael ei wneud mewn cyfarfod yn cael ei gofnodi ac efallai yn y broses o edrych ar y Cyfansoddiad y byddai'n briodol dod i gytundeb o safbwynt beth fyddai'n cael ei gofnodi a sut y byddid yn delio gyda chywirdeb y cofnodion ymlaen llaw cyn eu cadarnhau mewn Pwyllgorau. Roedd cofnodion rhai o Bwyllgorau'r Cyngor yn hynod o fyr a'r cwbl yr oeddent yn ei wneud oedd cofnodi'r penderfyniadau a dim byd am unrhyw sylwadau a wnaed.

**PENDERFYNWYD awdurdodi'r Prif Weithredwr i sefydlu ym Mawrth, 2012 Uwch Grŵp Arweinyddiaeth Dros Dro i Fôn i ddod i rym o 1 Ebrill 2012, fel y nodwyd hynny yn yr adroddiad a ystyriwyd ac a gymeradwywyd gan y Bwrdd Comisiynwyr ar 5 Mawrth 2012 o'r enw "Cynaliadwyaeth Ynys Môn trwy Gydweithredu" gyda'r trosi a'r newid trosodd o'r trefniadau uwch reolwyr dros dro i'w gwblhau erbyn mis Medi 2012.**

### 13. BWRIAD LLYWODRAETH CYMRU I NEWID DYDDIAD YR ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL YNG NGHYMRU O FIS MAI 2016 I FIS MAI 2017

Adroddwyd gan y Prif Weithredwr – Yn unol ag Adran 87 Deddf Llywodraeth Leol 2000, mae gan Weinidogion Cymru rym i newid y flwyddyn ar gyfer cynnal etholiadau llywodraeth leol ac maent yn ystyried defnyddio'r grym hwn i ohirio etholiadau i Gynghorau Sir, Cynghorau Bwrdeistref Sirol a Chynghorau Tref a Chymuned am flwyddyn o fis Mai 2016 i fis Mai 2017. Bydd y cylch etholiadau ar ôl hynny yn destun ymgynghoriad ar wahân. Roedd angen cael safbwyntiau ar y cynnig erbyn 12 Mawrth 2012.

**PENDERFYNWYD derbyn argymhelliad Llywodraeth Cymru i newid dyddiad yr etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru o fis Mai 2016 i fis Mai 2017.**

## 14. ADOLYGU ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMRU – CYNIGION CYCHWYNNOL COMISIWN FFINIAU CYMRU

Adroddwyd gan y Prif Weithredwr – Bod bwriad i ostwng nifer yr etholaethau seneddol yng Nghymru gan chwarter – o 40 i 30 – erbyn dyddiad yr Etholiad Cyffredinol nesaf yn y Deyrnas Gyfunol a gynhelir ar 7 Mai 2015. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i bob un o'r 4 Comisiwn ffiniau yn y Deyrnas Gyfunol, yn unol â'r Ddeddf, gynnal adolygiad cyffredinol o etholaethau seneddol yn eu hardaloedd a chyflwyno adroddiadau terfynol ar yr adolygiadau i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol cyn 1 Hydref 2013.

Roedd cynigion cychwynnol wedi'u cyhoeddi gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar 11 Ionawr 2012 a hynny'n cynnwys 74,453 o etholwyr. Ni fedr Ynys Môn ar ei phen ei hun gwrdd â'r gofynion statudol o ran maint yr etholaeth ac felly roedd rhaid cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig newydd nifer sylweddol o etholwyr ychwanegol o'r tir mawr gan gynnwys Dinas Bangor a'r cyffiniau. Roedd angen cael sylwadau ar y cynigion cychwynnol ac enw i'r etholaeth erbyn 4 Ebrill 2012.

Roedd y Cynghorydd A. Morris Jones o'r farn y dylai Ynys Môn barhau fel sedd seneddol ac y dylid anfon llythyr i'r perwyl hwn i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru.

Wrth ateb, dywedodd y Prif Weithredwr bod y Ddeddf hon wedi derbyn y gymeradwyaeth Frenhinol ychydig wythnosau yn ôl. Nid oedd dim yn rhwystro i'r Cyngor hwn anfon llythyr ond byddai'n awgrymu'n barchus na fyddai llythyr o'r fath yn cario unrhyw bwysau oherwydd bod y penderfyniad i leihau nifer yr etholaethau seneddol eisoes wedi'i wneud a phenderfyniad wedi'i gymryd eu bod i gynnwys nifer benodol o etholwyr.

**PENDERFYNWYD derbyn cynnwys yr adroddiad ac i awgrymu i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru y dylid galw'r etholaeth seneddol arfaethedig yn Môn a Menai.**

## 15. AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd - Adroddiad llafar gan y Cynghorydd Aled Morris Jones, un o gynrychiolwyr y Cyngor hwn ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, am gyfarfodydd a gynhaliwyd gan yr Awdurdod hwnnw rhwng 1 Rhagfyr, 2011 a 29 Chwefror 2012.

Adroddwyd - Roedd yn rhaid i'r Awdurdod arbed £815,000 arall yn 2012-13 gyda'r mwyafrif o'r arbedion hyn i'w sicrhau trwy gyflwyno system roster yn y gorsafoedd criw dydd a shifft yng Ngogledd Cymru, fyddai'n sicrhau'r criwio uchaf ac ni fyddai angen cymaint o swyddi ymladdwyr tân. Roedd gwaith negodi rhwng swyddogion a'r Undebau wedi mynd yn dda ac roedd disgwyl cyhoeddiad yn fuan am y system roster newydd. Byddai'r system newydd angen 22 yn llai o swyddi ac roedd gwaith negodi wedi cychwyn gyda chyrff cynrychioli ynglŷn â sut y gellid gwneud hyn heb gael diswyddo gorfodol. Roedd nifer o opsiynau'n cael sylw ar hyn o bryd.

Roedd yr adroddiad Monitro Perfformiad yng nghyswllt tri chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2011-12 wedi'i gyhoeddi ac roedd yn bleser nodi bod gwelliant wedi'i weld ymhob maes perfformiad.

Crybwyllwyd y ffaith y cafwyd 161 yn llai o danau o'i gymharu â'r run cyfnod yn 2010-11. Gwelwyd gostyngiad o 30% mewn tanau simneiau. Cafodd 20 o bobl niweidiau oedd angen triniaeth yn yr Ysbyty o'i gymharu â 35 yn y flwyddyn flaenorol. Roedd nifer y galwadau ffug wedi disgyn 9% dros y flwyddyn flaenorol.

Ar hyn o bryd, mae gan yr Awdurdod 4 Platfform Ystôl Uchel ar draws Gogledd Cymru gydag un Platfform Ystôl Uchel yn dod i ddiwedd ei fywyd ym mis Mawrth. Ni fydd un arall yn dod yn ei le a bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn fuan ynglŷn â lle y bydd y 3 Platfform Ystôl Uchel sydd ar ôl yn cael eu lleoli. Roedd staff wedi bod yn ymweld â marchnadoedd anifeiliaid ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau bod perchnogion tir yn ymwybodol o ran gweithdrefnau diogelwch safonol a'u bod yn dweud wrth y gwasanaeth pan fyddant yn bwriadu cynnal tanau a llosgi pethau.

Cynigiodd y Cynghorydd W. J. Chorlton (ac fe'i heiliwyd) y dylai'r adroddiad a roddwyd ymddangos gerbron y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'w gwerthuso.

Gofynnodd y Cynghorydd Selwyn Williams fel Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'r Cynghorydd Chorlton ysgrifennu iddo yn dweud yn union beth yr oedd eisiau i'r Pwyllgor ei sgriwtineiddio.

Roedd y Dirprwy Arweinydd yn ystyried ei bod yn bwysig sgriwtineiddio adroddiadau o'r fath ac y dylai'r adroddiadau gan aelodau'r Awdurdod hwn i'r Awdurdod Tân ac i Heddlu Gogledd Cymru gael eu sgriwtineiddio fel oedd yn digwydd yn nifer o awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru.

Cynigiodd y Cynghorydd Fflur Hughes (ac eiliwyd y cynnig) y dylai'r holl adroddiadau i'r Cyngor yn y dyfodol ar yr Awdurdodau Tân a'r Heddlu gael eu cyflwyno yn ysgrifenedig ac yn ddwyieithog.

**PENDERFYNWYD**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad a'i fod yn cael ei dynnu i sylw'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'w werthuso.**

- **Bod yr holl adroddiadau i'r Cyngor yn y dyfodol yn y cyswllt hwn yn cael eu cynnwys fel rhan o'r papurau gyda'r rhaglen.**

## 16. AWDURDOD HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd – Adroddiad llafar gan y Cynghorydd P. S. Rogers, cynrychiolydd y Cyngor a'r Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, am gyfarfodydd a gynhaliwyd gan yr Awdurdod hwnnw rhwng 1 Rhagfyr, 2011 a 29 Chwefror 2012.

Adroddwyd – Bod praesept Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru wedi'i osod ar 2.5%. Roedd y cynnig gwreiddiol yn un am 4% ond fe gafwyd gwelliant gan aelodau annibynnol i beidio cynyddu'r praesept o gwbl. Roedd y Cynghorydd Rogers wedi cefnogi'r cynnig hwnnw oherwydd nad oedd arian wrth gefn Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru yn cydweddu gydag Awdurdodau Heddlu eraill ac nad oedd unrhyw angen i fod â chymaint o arian wrth gefn. Roedd cyfanswm yr arian wrth gefn y gellid ei ddefnyddio wedi treblu mewn 4 blynedd gyda'r swm bellach oddeutu £28m. At hynny, nid oedd y defnydd oedd wedi'i gynllunio ar gyfer yr arian wrth gefn a'r prosiectau cyfalaf yn cyfateb i ddefnydd effeithiol o adnoddau. Roedd yna hefyd risg o golli cyllid yn y dyfodol oherwydd lefel uchel yr arian wrth gefn.

Roedd Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru wedi derbyn gwrandawiad da iawn gan y Cyngor hwn yn ddiweddar ar ei strategaeth stadau ac fe roddwyd cyfle i'r aelodau godi nifer o faterion gyda hwy. Dywedodd y Cynghorydd Rogers hefyd am lwyddiannau'r Heddlu'n ddiweddar yn dod â giang cyffuriau mawr i gyfraith.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd am i'r adroddiad gael ei ddwyn i sylw'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac y dylai adroddiadau tebyg i'r Cyngor gael eu cyflwyno yn y dyfodol ar ffurf ysgrifenedig dwyieithog.

**PENDERFYNWYD**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad a'i bod yn cael ei ddwyn i sylw'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'w werthuso.**

- **Bod yr holl adroddiadau i'r Cyngor yn y dyfodol ynglŷn â hyn yn cael eu cynnwys fel rhan o'r papurau gyda'r rhaglen.**

## 17. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Roedd cyngor cyfreithiol yn argymell bod yr eitem ganlynol yn cael sylw o fewn y parth cyhoeddus.

**18. DATGANIAD POLISI TÂL DRAFFT**

Adroddwyd gan y Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol - Bod Adran 38 Deddf Lleoliaeth 2011 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr i gynhyrchu a chyhoeddi datganiad polisi tâl ar gyfer 2012-13 ac ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ôl hynny.

Yn unol â Deddf Lleoliad 2011, rhaid i Awdurdodau ddatblygu a chyhoeddi eu polisi tâl ynghylch pob agwedd ar y Gydnabyddiaeth Ariannol i Brif Swyddogion. Er budd tryloywder ac atebolrwydd, roedd y Cyngor wedi penderfynu cymryd agwedd ehangach a chynhyrchu datganiad polisi sy'n ymwneud â'r holl grwpiau o weithwyr, ac eithrio athrawon ysgol oherwydd bod eu cydnabyddiaeth ariannol nhw y tu allan i reolaeth yr awdurdod lleol.

Roedd yr Awdurdod hwn yn ddiweddar wedi cynnal adolygiad o'r cyflogau uwch fel rhan o'r broses o ail strwythuro uwch reolwyr. Roedd cynnwys yr adroddiad hwnnw a dderbyniwyd gan y Cyngor llawn ar 14 Rhagfyr 2011 wedi cael ei ddefnyddio i roi siâp ar y Polisi Tai.

**PENDERFYNWYD - er mwyn bodloni ei anghenion statudol, i gymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl am 2012-13.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4:45pm

**Y CYNGHORYDD G. O. JONES**
**CADEIRYDD**